YSGOL ABERCONWY

13.07.2026

Annwyl Rieni a Gofalwyr,

Yn gynharach eleni, cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch y newidiadau arfaethedig i wisg ysgol Ysgol Aberconwy. Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd yr amser i rannu eu barn a'u hadborth. Gellir gweld crynodeb o'r broses ymgynghori a'r canlyniadau YMA.

Yn dilyn ystyriaeth ofalus o'r adborth a gafwyd gan rieni, disgyblion, staff a llywodraethwyr, byddwn yn cyflwyno **Gwisg Amlbwrpas o fis Medi 2026**. Mae'r wisg newydd wedi'i datblygu o'n cit Addysg Gorfforol presennol ac mae'n ddatblygiad o'r trefniadau sydd eisoes ar waith, yn hytrach na newid sylweddol i'r arferion presennol. Ei nod yw darparu gwisg ymarferol, gyfforddus a fforddiadwy i ddisgyblion, gan hyrwyddo mwy o gysondeb, annog cyfranogiad gweithgar drwy gydol y diwrnod ysgol a chynnal y safonau uchel a ddisgwylir yn Ysgol Aberconwy.

Rydym yn cydnabod y bydd cyflwyno gwisg newydd yn golygu costau i deuluoedd. Er mwyn cefnogi'r newid hwn, bydd cyfnod pontio o un flwyddyn rhwng Medi 2026 a Gorffennaf 2027.

**Yn ystod y cyfnod pontio hwn:**

- **Dylai disgyblion Blynyddoedd 8–11** wisgo'r Wisg Amlbwrpas ar ddiwrnodau pan fydd ganddynt Addysg Gorfforol, GOFAL, Twf a Lles Personol, Gweithgareddau Awyr Agored (ODA) neu Ofal Anifeiliaid.

- Ar bob diwrnod ysgol arall, gall disgyblion Blynyddoedd 8–11 ddewis gwisgo naill ai eu gwisg ysgol bresennol neu'r Wisg Amlbwrpas.

Bydd y dull graddol hwn yn galluogi teuluoedd i

Dear Parents and Carers,

Earlier this year, we undertook a consultation regarding proposed changes to our school uniform. We would like to thank everyone who took the time to share their views and feedback. A summary of the consultation process and outcomes can be found HERE.

Following careful consideration of the feedback received from parents, students, staff and governors, we will be introducing an **All-Purpose Uniform from September 2026**. The new uniform has been developed from our current PE kit and represents an evolution of our existing arrangements, rather than a significant change to current practice. Its purpose is to provide students with a practical, comfortable and affordable uniform whilst promoting greater consistency, encouraging active participation throughout the school day and maintaining the high standards expected at Ysgol Aberconwy.

We recognise that introducing a new uniform has financial implications for families. To support this transition, there will be a one-year transition period from September 2026 to July 2027.

**During this transition period:**

- **Years 8–11 students** should wear the All-Purpose Uniform on days when they have PE, GOFAL, Personal Growth and Well-being, Outdoor Adventure Activities (OAA) or Animal Care.

- On all other school days, Years 8–11 students may choose to wear either their current school uniform or the All-Purpose Uniform.

This phased approach will allow families to replace


MORFA DRIVE CONWY LL32 8ED | +44 (0)1492 593243 | +44 (0)1492 592537 | INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK | WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

ddisodli eitemau yn raddol ac osgoi costau diangen.

**Gofynion y Wisg**

Mae manylion llawn y gofynion gwisg, ynghyd ag enghreifftiau o'r eitemau cymeradwy, ar gael yma: https://www.aberconwy.conwy.sch.uk/cy/school-uniform/.

**Prynu'r Wisg**

Fe sylwch nad yw'r eitemau yn y Wisg Amlbwrpas yn cynnwys logo'r ysgol yn unigol. Yn hytrach, mae'r holl ddillad yn rhan o ystod Aptus Schoolwear, gan sicrhau cysondeb o ran arddull ac ansawdd. **Er mwyn cynnal y safonau hyn, ni chaniateir eitemau a brynir gan fanwerthwyr eraill.**

Gellir prynu'r Wisg Amlbwrpas gan y naill neu'r llall o'r cyflenwyr cymeradwy canlynol:

- Uniformed Stryd Madoc, Llandudno Uniformed - School & Workwear | Colwyn Bay | Facebook Mae cynlluniau talu ar gael i helpu teuluoedd i ledaenu cost prynu'r wisg.
- Personalise Me Print Schoolwear - PersonaliseMe Print Ltd

Er mwyn cefnogi teuluoedd ymhellach, byddwn hefyd yn cynnal **gwerthiant gwisg ysgol yn yr ysgol ar ddydd Iau 20 Awst, rhwng 11.00am ac 1.00pm**, lle bydd ystod o wisg ysgol newydd ac ail-law ar gael i'w phrynu. Bydd hyn yn rhoi cyfle cyfleus i deuluoedd brynu gwisg yn lleol cyn dechrau'r tymor.

O fis Medi ymlaen, bydd ein disgwyliadau ynghylch gwisg ysgol yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws yr ysgol. **Disgwylir i bob disgybl gyrraedd yr ysgol bob dydd yn gwisgo'r wisg gywir**, a bydd unrhyw achosion o dorri'r rheolau gwisg yn cael eu trin yn unol â disgwyliadau'r ysgol.

**Ni chaniateir yr eitemau canlynol fel rhan o'r naill wisg na'r llall:**

- **Legins du**
- **Siorts â brand (e.e. siorts Nike Pro)**

items gradually and avoid unnecessary expense.

**Uniform Requirements**

Full details of the uniform requirements, together with examples of approved items, can be found here: https://www.aberconwy.conwy.sch.uk/en_gb/school-uniform/.

**Purchasing the Uniform**

You will notice that the items within the All-Purpose Uniform are not individually branded with the school logo. Instead, all garments form part of the Aptus Schoolwear range, ensuring consistency of style and quality. **To maintain these standards, items purchased from alternative retailers will not be permitted**.

The All-Purpose Uniform can be purchased from either of the following approved suppliers:

- Uniformed, Madoc Street, Llandudno Uniformed - School & Workwear | Colwyn Bay | Facebook. Payment plans are available to help spread the cost of purchasing uniform.
- Personalise Me Print Schoolwear Schoolwear - PersonaliseMe Print Ltd

To further support families, we will also be holding an in-school **uniform sale on Thursday 20th August, from 11.00am–1.00pm**, where a range of new and pre-loved uniform will be available to purchase. This will provide families with a convenient opportunity to purchase uniform locally before the start of term.

From September, our uniform expectations will be applied consistently across the school. **Students will be expected to arrive each day wearing the correct uniform,** and any uniform infringements will be addressed in line with our school expectations.

**The following items are not permitted as part of either uniform:**

- **Black leggings**
- **Branded shorts (e.g. Nike Pro shorts)**

- **Trowsus tracwisg safonol**

Credwn fod safonau uchel o ran gwisg a chyflwyniad personol yn cyfrannu at ddiwylliant ysgol cadarnhaol, yn meithrin ymdeimlad cryf o berthyn ac yn helpu i greu amgylchedd lle mae pob disgybl yn gyfforddus, yn hyderus ac yn barod i ddysgu.

Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth barhaus drwy gydol y broses hon. Edrychwn ymlaen at groesawu'r disgyblion yn ôl ym mis Medi ac at gydweithio â chi i sicrhau eu bod yn llysgenhadon balch dros Ysgol Aberconwy.

Yn gywir,

Mr I.A. Gerrard

Pennaeth

- **Standard tracksuit bottoms**

We believe that high standards of presentation contribute to a positive school culture, foster a strong sense of belonging and help create an environment where every student is comfortable, confident and ready to learn.

Thank you for your continued support throughout this process. We look forward to welcoming students back in September and working together to ensure they are proud ambassadors for Ysgol Aberconwy.

Yours sincerely,

Mr I.A. Gerrard

Headteacher



MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED
+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537
INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE